CELF AR Y CYD

Adnodd i athrawon a hwyluswyr creadigol sy'n cyflwyno dulliau i gynorthwyo dysgwyr i ymateb yn greadigol i waith celf. Crewyd yr adnodd hwn gan Nia Morais, Bardd Plant Cymru.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Bardd Plant Cymru

# Beth yw Celf ar y Cyd?

Mae gwefan Celf ar y Cyd yn rhan o Oriel Celf Gyfoes Cenedlaethol Cymru, menter newydd, gyffrous i rannu casgliad celf yr Amgueddfa Genedlaethol ledled y wlad. Cewch bori, dysgu a chael eich ysbrydoli gan filoedd o weithiau celf gyfoes ar y sgrîn o'ch cartref, neu o'ch ystafell ddosbarth.


Dyma wefan werthfawr ellir ei defnyddio i sbarduno trafodaethau am gelf a chreadigrwydd yn y dosbarth.



Natur a'r Amgylchedd



Pobl, Cymdeithas & Hunaniaeth



Ein Byd



Iechyd & Lles




Gwleidyddiaeth, Protest & Ymgyrchu



Cymru & Chymreictod



Crefydd & Chredoau



Y Corff

Cliciwch ar y darnau celf uchod i gael mwy o wybodaeth am bob thema.

## Adnoddau dysgu

Mae'r adnodd hwn yn addas ar gyfer CC 4, a wedi'i ddylunio er mwyn defnyddio celf fel sbardun i greu barddoniaeth yn y dosbarth.




Dyma fideo o un disgybl yn esbonio'i phrofiad hi o ysgrifennu cerddi ecffrastig.


**Ekphrastic**

Gair Groegaidd ydy Ekphrasis sy'n golygu disgrifio rhywbeth yn fanwl; mae'r term 'barddoniaeth ecffrastig' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer barddoniaeth sy'n disgrifio (neu sydd wedi'i ysbrydoli gan) darn o gelf. Mae'r bardd yn ymateb i'r darn gan ddisgrifio beth sydd i'w weld, ond hefyd yn trafod themâu neu neges y darn, yn ogystal a'i ymateb personol ac emosiynol i'r darn.

# Gwers 1 - Cyflwyniad

'The Starry Night' gan Vincent Van Gough.





Fideo 15 munud sy'n esbonio'r hanes tu ôl i 'The Starry Night'.

## Cwestiynau

- Beth yw eich argraffiadau chi o'r llun hwn?
- Sut mae'r gwaith celf yn gwneud i chi deimlo?
- Sut ydych chi'n meddwl mae Van Gough yn llwyddo i greu cymaint o symud mewn darn statig o gelf?

**Rhannwch yr ymatebion canlynol i 'The Starry Night' gyda'r dosbarth.**




Cân sy'n cymryd 'The Starry Night' fel ysbrydoliaeth er mwyn trafod bywyd yr artist a phwysigrwydd cefnogaeth ar gyfer pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.

## Trafodaeth dosbarth

- Heblaw am y gwaith celf ysgogol, oes tebygrwydd rhwng y gân a'r gerdd?
- Pa themâu neu syniadau sy'n amlwg yn y ddau ddarn?
- Allwch chi sylwi ar unrhyw dechnegau barddonol? Ystyriwch ddelweddaeth, llythrennedd, ailadrodd ac ati.

**'The Starry Night' gan Anne Sexton**

The town does not exist
except where one black-haired tree slips
up like a drowned woman into the hot sky.
The town is silent. The night boils with eleven stars.
Oh starry starry night! This is how
I want to die.

It moves. They are all alive.
Even the moon bulges in its orange irons
to push children, like a god, from its eye.
The old unseen serpent swallows up the stars.
Oh starry starry night! This is how
I want to die:

into that rushing beast of the night,
sucked up by that great dragon, to split
from my life with no flag,
no belly,
no cry.

Cerdd sy'n disgrifio ac yn creu stori tu ôl i'r darn.

## Tasg

Gofynnwch i'r disgyblion ddewis un o'r gweithiau celf canlynol o gasgliad Celf ar y Cyd:









Cliciwch ar bob gwaith celf i gael mwy o wybodaeth.

### Cwestiynau

- Beth sy'n tynnu eich sylw yn gyntaf?
- Pa wrthrychau/lliwiau sy'n sefyll allan??
- Meddyliwch am dri ansoddair i ddisgrifio'r darn.

Yn dibynnu ar y dosbarth, gall y disgyblion ateb y cwestiynau ar bapur mewn parau, defnyddio'r cwestiynau fel pwyntiau trafod mewn grwpiau, neu ateb ar lafar.

Dylai'r plant geisio ateb y cwestiynau yma heb wybod dim am y darn o gelf, gyda'r gefnogaeth i ddyfalu, a'r hyder i beidio bod yn gywir pob tro. Mae'r dasg hon yn eu cefnogi i adeiladu ar sgiliau archwilio a dadansoddi – eu dehongliad nhw sy'n bwysig. I'r plant iau, gallwch esbonio hyn fel bod yn "ditectif" celf. Ceisiwch gofyn i'r plant esbonio'r rhesymeg tu ôl i'w hatebion – "Pam wyt ti'n meddwl hynny?" "Beth yn y darn sy'n dangos hynny i ti?"

Ar ôl ateb y cwestiynau, darllenwch (neu gadewch i'r disgyblion ddarllen) y wybodaeth tu ôl i'r darn sydd ar gael ar y wefan. Dyma siawns i drafod os oedd eu dyfaliadau'n iawn neu ddim, ac os ydy'r wybodaeth ychwanegol yn newid sut maen nhw'n teimlo am y darn.

# Gwers 2 - Ysgrifennu Barddoniaeth Ecffrastig

## Tasg 1

Ysgrifennu 'rhydd'

- Crëwch restr o bopeth rydych chi'n ei weld yn y darn – lliwiau, gwrthrychau, pobl, siapau, anifeiliaid, planhigion, a.y.y.b.
- Crëwch rhestr o ansoddeiriau i ddisgrifio'r darn.
- Dewiswch 3 gwrthrych o'r rhestr ac ysgrifennwch gymhariaeth am bob un.
  E.e. "Mae'r lleuad yn felyn fel banana"
- Nawr ceisiwch ymestyn y cymariaethau yma a'u gwneud yn fwy diddorol.
- Gallwch wneud hyn gan ddefnyddio atgof neu stori: "Mae'r lleuad yn felyn fel banana sy'n gwenu o fy mocs bwyd yn yr haul tu allan i'r amgueddfa, ar daith ysgol un diwrnod braf o haf".
- Ysgrifennwch baragraff sy'n disgrifio beth sy'n digwydd yn y darn. Ceisiwch ddefnyddio disgrifiadau manwl a lliwgar, cymariaethau, ac ansoddeiriau.
  E.e. "Mae'r lleuad yn disgleirio'n euraidd i lawr ar y tir du, ac mae'r gwynt yn rhuthro heibio fel haid o forgrug..."

# Tasg 2

## Haiku

Ffurf farddonol o Siapan ydy haiku, sef cerdd fer o 3 llinell sy'n dilyn patrwm penodol o sillafau. Roedd y cerddi yma'n cymryd ysbrydoliaeth gan natur yn draddodiadol, ond erbyn hyn mae beirdd yn defnyddio'r ffurf er mwyn ysgrifennu cerddi ar unrhyw thema. Mae ysgrifennu haiku yn tasg sydyn a hwyliog sy'n annog disgyblion i fod yn graff gyda'u dewis o eiriau a synau.




I helpu i gyfri'r sillafau, dylai'r disgyblion danlinellu pob sillaf, neu clapio'r sillafau a'u cyfri cyn ysgrifennu'r cerdd orffenedig.

Dychwelwch at eich dewis o baentiad o gasgliad Celf ar y Cyd a darllenwch dros eich ymatebion i'r dasg ysgrifennu rhydd. Defnyddiwch eich nodiadau i gynhyrchu Haiku gan ddefnyddio un o'r strwythurau canlynol:

1. Argraff cyntaf o'r darn (5 sillaf)
2. Dewis un manylyn fel eu bod yn edrych trwy ficrosgop a'i ddisgrifio (7 sillaf)
3. Disgrifio emosiwn y darn (5 sillaf)

1. Lleoliad (5 sillaf)
2. Amser y dydd a thymor y flwyddyn (7 sillaf)
3. Ymateb y gwyliwr (5 sillaf)

1. Disgrifio beth sy'n digwydd yn y darn (5 sillaf)
2. Disgrifio un peth yn y darn gydag ansoddeiriau (7 sillaf)
3. Creu cymhariaeth i ddisgrifio llinell 2 (5 sillaf)

## Enghreifftiau gan ddisgyblion

Machlud haul; mynydd
yn gwylio unigrwydd dyn:
distawrwydd y byd.

– Disgyblion Bl.8 Ysgol Gyfun Bryn Tawe, wedi'i ysbrydoli gan "The Bard" gan Thomas Jones



Canol dydd, gwanwyn
dŵr yn llifo drwy'r pentref
fel neidr llithrig

– Disgyblion adran iau Ysgol Bro Morgannwg, wedi'i ysbrydoli gan "Sully, near Cardiff" gan Thomas Frederick Worral



### Tasgau estyn

Am elfen fwy artistig i'r gweithdy, gall y disgyblion greu darn o gelf - efelychiad eu hun o'r gwaith a ddewiswyd.

Yn ogystal a chreu cerddi fel y rhai uchod, ac yn dibynnu ar y grŵp, gallwch greu cerddi acrostig, englynion, cerddi diemwnt a.y.y.b. Mwynhewch!

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

BARDD PLANT CYMRU